Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 26 Mawrth 2018, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

214. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd John Wynne Hughes.

215. CYFLWYNIAD YNGHYLCH EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Croesawodd y Maer Mr Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Urdd, a Mr Iwan Vaughan Evans, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Rhuthun, i'r cyfarfod. Amlinellodd Mr Siôn gefndir a manteision cynnal gŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop yn yr ardal, gyda 90,000 o ymwelwyr yn mynd i'r digwyddiad. Anogodd yr aelodau i gefnogi'r apêl codi arian. Cadarnhaodd y byddai unrhyw gyfraniad a wnaed yn cyfri tuag at y cyfanswm a godir gan Bwyllgor Apêl Rhuthun. Esboniodd Mr Vaughan Evans mai'r targed a bennwyd ar gyfer Rhuthun oedd £40,000.
PENDERFYNWYD*: gwneud ymholiadau ynghylch noddi'r Babell Gelf a Chrefft a chlustnodi £3,000 o gyllideb 2017-18 tuag at hyn, gyda rhagor o gyfraniadau dros y ddwy flynedd ariannol nesaf yn dod i gyfanswm o £10,000.*

216. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Croesawodd y Maer Sarjant Jonny Hill i'r cyfarfod. Rhannodd yr ystadegau troseddau yn Rhuthun gyda'r aelodau, a oedd yn dangos lleihad o'u cymharu gyda'r un cyfnod pedwar mis yn 2016-17 o 110 o droseddau i gyfanswm o 100 o droseddau. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau. Cafwyd cwestiynau am broblemau yn y Clwb Pel-droed, a fyddai'r traffig a'r parcio wrth safle'r ysgolion newydd ar Ffordd Glasdir yn cael ei fonitro gan yr Heddlu, yn enwedig ar ddiwrnodau ocsiwn ac a fyddai'r adeiladau gwag ar Stryd y Rhos yn parhau i gael swyddogion yr heddlu yn galw heibio. Diolchodd y Maer i'r Sarjant Hill am ei gyflwyniad a dymunodd y gorau iddo yn ei ymddeoliad ddiwedd Ebrill.
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

217. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiadau am fudd personol gan y Cynghorwyr Robert Owen-Ellis ac Emrys Wynne ynghylch eitem 12 – Cais am Gymorth Ariannol gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pen Barras, y Cynghorydd Ken Hawkins ynghylch eitem 19 – Cytundeb gwasanaethu clociau a'r Cynghorwyr Menna Jones, Ifan Wyn ac Emrys Wynne o ran eitem 2 – Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

218. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn bresennol yn y digwyddiadau isod.

27.02 Beirniadu'r gystadleuaeth addurno ffenestri siopau ar gyfer Gŵyl Dewi yn Ninbych
02.03 Cinio Elusennol Maer Llanelwy yng ngwesty'r Oriel House, Llanelwy
07.03 Digwyddiad Ymgysylltu'r Panel Adolygu Annibynnol yn Wrecsam
09.03 Noson Siarter Clwb Rotari Rhuthun yng ngwesty'r Oriel House, Llanelwy
12.03 Seremoni codi baner Diwrnod y Gymanwlad yn Neuadd y Sir
Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
22.03 Cyfarfod gyda'r Sarjant Jonathon Hill
23.03 Cyfarfod gweithgor Rhuthun y Dyfodol yn y Manorhaus
24.03 Ymgyrch casglu sbwriel y dref
26.03 Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da

219. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod Gweithgor Rhuthun y Dyfodol.
Cyng. Stephen Beach	Hyfforddiant Cynllunio gan Gymorth Cynllunio Cymru yng Nghastell Rhuthun a digwyddiad Ymgysylltu'r Panel Adolygu Annibynnol yn Wrecsam.
Cyng. Gavin Harris	Cyfarfod Gweithgor Rhuthun y Dyfodol.
Cyng. Ken Hawkins	Newid yr awr ar gloc Eglwys Sant Pedr i amser haf Prydain.
Cyng. Rosie Hughes	Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Menna Jones	Cynorthwyo yn Eisteddfodau Sir cynradd ac uwchradd Sir Ddinbych yn Ysgol Brynhyfryd, cyfarfod Gweithgor Rhuthun y Dyfodol a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Ymlaen Rhuthun, cyfarfod y Gymdeithas Ddinesig ynghylch Drysau Agored, cyfarfod i ail-lansio grŵp Bro Rhuthun yn y Manorhaus, cyfarfod Gweithgor Rhuthun y Dyfodol a chyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Rheoli Canolfan Awelon a chyfarfod Gweithgor Rhuthun y Dyfodol.
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod Pwyllgor Apêl yr Urdd, noson cefnogi Bov yng nghystadleuaeth Cân i Gymru ac Eisteddfod Sir Sir Ddinbych.

220. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2018 yn gofnod cywir.*

221. MATERION YN CODI

Cadarnhaodd y Clerc y byddai dau gynrychiolydd o Cyswllt – Cymdeithas Gwarchod Ar-lein Sir y Fflint a Wrecsam yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref i roi rhagor o fanylion. Gan gyfeirio at ymgyrch Tacluso'r Dref, a'i phrofiadau fel ynad heddwch, gofynnodd y Cynghorydd Heather Williams am anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych ynghylch pryderon bod Kingdom, y contractwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno cosbau am daflu sbwriel, yn canolbwyntio ar bobl sy'n gollwng bonyn sigaret yn hytrach nag eitemau sbwriel eraill. Cytunwyd trafod sefydlu grŵp Tref Daclus yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau.

222. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018.*

223. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at eitemau o gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2018.*

224. ENWEBIADAU AR GYFER MAES A DIRPRWY FAER

Gofynnwyd i'r aelodau nodi dyddiad yr ymgyrch casglu sbwriel, a gynhelir ddydd Sadwrn, 24 Mawrth – cyfarfod yng maes parcio Cae Ddôl am 10am a dychwelyd erbyn hanner dydd. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Rosie Hughes a Dave Snape gan na fyddent ar gael y diwrnod hwnnw.

PENDERFYNWYD*: cadarnhau y cynhelir ymgyrch casglu sbwriel y dref ddydd Sadwrn, 24 Mawrth.*

225. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CRHA YSGOL PEN BARRAS

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pen Barras am £2,394 neu gyfraniad llai, tuag at brynu eitemau ar gyfer disgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn. Bu'r aelodau'n trafod y cais, ac roeddynt yn bryderus y byddai'n sefydlu cynsail ac roeddynt hefyd yn teimlo y dylai Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon fedru codi arian eu hunain. Cynigiwyd gwrthod y cais. Pleidleisiwyd o blaid hyn, gyda dau aelod yn atal eu pleidlais.
PENDERFYNWYD*: peidio â rhoi cymorth ariannol i'r cais hwn.*

226. STATWS CROESAWU BYSIAU MOETHUS I DREF RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Heather Williams ddiweddariad ar y gwaith a wnaed gan y Gweithgor. Esboniodd bod camau olaf y gwaith paratoi yn mynd rhagddynt, a gofynnodd i'r aelodau gytuno, mewn egwyddor, i'r Cyngor Tref gyflwyno cais am Statws Croesawu Bysiau Moethus ym mis Mehefin.
PENDERFYNWYD*: bod yr aelodau'n cytuno, mewn egwyddor, i Gyngor Tref Rhuthun gyflwyno cais am Statws Croesawu Bysiau Moethus ar gyfer Rhuthun.*

226. DIWEDDARU CYNLLUN RHUTHUN – TREF FARCHNAD Y DYFODOL

Darparodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad, yn amlinellu bod y Gweithgor wedi cyfarfod a bod yr aelodau'n cyflawni tasgau ar gyfer Wythnos Rhuthun y Dyfodol, i'w chynnal rhwng 22 a 30 Ebrill. Yr holl fanylion ar www.rhuthun.com
PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth ddiweddaru.*

227. TREFNIADAU GWASANAETH SUL Y COFIO YN Y DYFODOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr gan y Parchedig Gareth Roberts, Cadeirydd CYTUN Rhuthun, yn awgrymu cylchdroi'r sawl sy'n arwain Gwasanaeth Sul y Cofio. Roedd yr aelodau am i'r gwasanaeth fod yn agored i bob crefydd ac i'r holl bobl, a holwyd beth fyddai safbwynt y Crynwyr ac a fyddai'n bosibl cynnwys cynrychiolydd Dyneiddwyr.
PENDERFYNWYD*: cysylltu gyda'r Parchedig Gareth Roberts i fynegi'r farn uchod.*

228. COFIO CANMLWYDDIANT DIWEDD Y RHYFEL BYD CYNTAF

Bu'r aelodau'n ystyried yr wybodaeth ynghylch yr ymgyrch Milwr Mud i gefnogi'r Lleng Brydeinig yn Swydd Amwythig. Roedd yr aelodau'n cytuno ei fod yn haeddu sylw pellach a chynigiodd y Cynghorydd Rosie Hughes gael rhagor o fanylion.
PENDERFYNWYD*: bod y Cynghorydd Rosie Hughes yn cael rhagor o wybodaeth ac yn darparu diweddariad yn y cyfarfod nesaf.*

229. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn amlinellu'r penderfyniad bod rhaid i lwfansau o £150 fod ar gael i bob Cynghorydd. Dosbarthodd y Clerc ffurflen i bob Cynghorydd fel y gallent gadarnhau'n ysgrifenedig a oeddynt yn dymuno derbyn neu wrthod y lwfans. Cyfeiriodd hefyd at wahoddiad gan y Panel i Glercod fynd i ddigwyddiad rhanbarthol yng Nghanolfan Fusnes Conwy ar 9 Mai, a mynegodd ddiddordeb mewn mynd i'r digwyddiad.
PENDERFYNWYD*: derbyn yr Adroddiad a rhoi caniatâd i'r clerc fynd i ddigwyddiad rhanbarthol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar 9 Mai.*

230. CYFARFOD CHWARTEROL CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU

Gan nad oedd y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson yn medru mynd i'r cyfarfod chwarterol nesaf yn y Trallwng ar 20 Ebrill, gofynnwyd i'r aelodau enwebu aelod arall i fynd i'r cyfarfod. Dywedodd y Cynghorydd Jim Bryan ei fod ar gael i fynd i'r cyfarfod.
PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorwyr Jim Bryan a Stephen Beach yn mynd i'r cyfarfod nesaf, ac archebu cinio ar eu cyfer.*

231. CYTUNDEB GWASANAETHU CLOCIAU SMITH'S OF DERBY

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu'r cytundeb gwasanaethu clociau am dair blynedd arall, yn cwmpasu cloc Eglwys Sant Pedr, cloc Cofeb Peers a'r cloc yn Neuadd y Dref, ar gost o £517 + TAW neu fynd yn ôl i gytundeb gwasanaethu blynyddol.

***PENDERFYNWYD**: ymrwymo i gytundeb gwasanaethu tair blynedd arall am £517 + TAW.*

232. CAIS UNDEB CREDYD CAMBRIAN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr gan Undeb Credyd Cambrian yn esbonio bod uchafswm o £30,000 i'w gyflwyno ar gyfrifon cynilo, yn dilyn newidiadau i reoliadau ariannol, ac yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried trefniadau i leihau ei falans yn unol â hynny. Hysbysodd y Clerc yr aelodau bod cyfrif cynilo HSBC yn cynnig cyfradd llog o 0.05% ar hyn o bryd.

***PENDERFYNWYD**: gofyn am ragor o arweiniad gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.*

233. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18

Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r wybodaeth am y Cynllun Archwilio Mewnol 2017-18 gan JDH Business Services Ltd.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth.*

234. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2018.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2018.*

235. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5148	Cyngor Sir Ddinbych	Gwaith cynnal a chadw llyn Cae Ddôl – seithfed ad-daliad y benthyciad		£7,880.00
5149	Cyngor Sir Ddinbych	Cyfraniad Cyngor Tref Rhuthun tuag at flociau concrid ym maes parcio Heol y Parc		£1,000.00
5150	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5151	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5152	Dafydd Williams	Adnewyddu tanysgrifiad Norton Antivirus		£39.99
D.D.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£169.02

236. EITEM FRYS – COLEG CYMUNEDOL DINBYCH

Rhoddodd y Maer ganiatâd i ystyried eitem frys. Mynegodd y Cynghorydd Emrys Wynne bryderon dybryd ynghylch y cyhoeddiad bod Coleg Cymunedol Dinbych, rhan o Grŵp Llandrillo Menai, i gau. Byddai hyn yn gadael llu o fyfyrwyr, nifer o Rhuthun, yn gorfod teithio i safleoedd yn Llandrillo yn Rhos, Ynys Môn neu Ddolgellau i gwblhau ail flwyddyn eu cwrs dwy flynedd.

***PENDERFYNWYD:** ysgrifennu llythyr at Brif Weithredwr Coleg Llandrillo Menai yn mynegi pryderon Cyngor Tref Rhuthun ynghylch y bwriad arfaethedig i gau Coleg Cymunedol Dinbych.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnal y cyfarfod mewn cyfrinachedd ar gyfer yr eitem a ganlyn.

237. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyniodd yr aelodau fanylion am daliadau cyflog Clerc y Dref am y pum mis blaenorol.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r manylion a thalu swm y cyflog sy'n ddyledus.*

238. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 23 Ebrill 2018 at 7.00pm.*